# AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU

# NATIONAL MUSEUMS & GALLERIES OF WALES

## GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

**Michael Tooby**
**Cyfarwyddwr, Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol Caerdydd**

**Angela Gaffney**
**Swyddog Ymchwil i Bartneriaethau**

# Gweithio Mewn Partneriaeth

## Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **1.0** | **Nodau ac Amcanion** | **5** |
| **1.1** | **Cefndir** | **6** |
| **1.2** | **Cynseiliau Hanesyddol** | **6** |
| **1.3** | **Diffiniadau** | **7** |
| **1.4** | **Cynlluniau Partneriaeth Sefydliadau Cyffelyb** | **8** |
| **2.0** | **Enghreifftiau o Bartneriaethau Presennol AOCC** | **10** |
| **2.1** | **Ymchwil** | **10** |
| **2.2** | **Curadurol ac Addysgol** | **13** |
| **2.3** | **Partneriaethau Datblygu Prosiectau a Buddsoddi** | **14** |
| **2.4** | **Partneriaethau â Sefydliadau Cenedlaethol Eraill** | **15** |
| **3.0** | **Partneriaid Posibl** | **17** |
| **4.0** | **Lleoliadau bychain presennol a reolir gan AOCC ac sydd â phartneriaeth leol hirsefydlog** | **19** |
| **5.0** | **Amgyffrediad ac Ymwybyddiaeth o AOCC** | **20** |
| **6.0** | **Cynllun Partneriaeth 'Cyfoeth Cymru Gyfan – Sharing Treasures'** | **22** |
| **7.0** | **Y Camau Nesaf** | **23** |
| **8.0** | **Sut y gall AOCC elwa o fod â pholisi strwythuredig?** | **25** |
| **9.0** | **Casgliadau** | **26** |

## Gweithio Mewn Partneriaeth

### 1.0 Nodau ac Amcanion:

- Fe baratowyd yr adroddiad hwn gan y Swyddog Ymchwil i Bartneriaethau a Chyfarwyddwr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol Caerdydd.

- Mae'n cyflwyno pwnc partneriaethau AOCC yng Nghymru ac mae iddo ddau nod:

    - asesu'r amrediad o waith y mae AOCC yn ei wneud yng Nghymru mewn partneriaeth â chyrff eraill;

    - darparu arolwg o'r posibilrwydd ar gyfer cynllun partneriaethau cydlynol, a strwythur syml er mwyn cyflawni hyn.

- Mae'r adroddiad yn egluro pam fod pwyslais ar fynediad at gasgliadau yng Nghymru, drwy fenthyciadau, arddangosfeydd ac arddangosiadau a gwaith cysylltiedig a gynlluniwyd ar y cyd gydag amgueddfeydd ac orielau yng Nghymru.

- 'Cyfoeth Cymru Gyfan – Sharing Treasures'. Mae'r adroddiad yn disgrifio'r cynllun hwn a fydd yn mynd ar drywydd tri phrif amcan:

    - prosiectau arbrofol dros gyfnod o ddwy flynedd gyda thair amgueddfa yng Nghymru, drwy nawdd a roddwyd i Gyngor Amgueddfeydd yng Nghymru (CAmgC) gan Lywodraeth Cynulliad Cymru;

    - creu hunaniaeth er mwyn gwella'r modd yr hyrwyddir benthyciadau presennol ar gyfer amgueddfeydd ac orielau y mae AOCC yn gweithio â nhw ledled Cymru;

    - asesu gwaith drwy bartneriaeth pellach y gellir ei gysylltu â'r cynllun yn y dyfodol.

- Terfyna'r adroddiad gyda thrafodaeth ar y 'camau nesaf' ar gyfer AOCC. Amlinellir manteision dilyn polisi strwythuredig ar gyfer gweithio mewn partneriaeth.

- Pwysigrwydd cynnal a hybu'r ymwneud sydd eisoes yn digwydd â phartneriaid ar hyd a lled y Deyrnas Unedig. Fe ddynodir fod Ewrop a thu hwnt yn elfen hanfodol o strategaeth partneriaethau yn y dyfodol.

## 1.1 Cefndir:

**1.1.1** Penderfynwyd penodi Swyddog Ymchwil i Bartneriaethau dros dro ym mis Tachwedd 2001 yn sgîl trafodaethau o fewn AOCC ynglyn â'r ffordd y caiff gwaith gydag amgueddfeydd, orielau, a chyrff addysgol eraill yn ogystal â chyrff eraill yng Nghymru ei drefnu a'i hyrwyddo. Mae'n bwysig nodi bod llawer o gynllunio strwythuredig yn pwysleisio "gweithio mewn partneriaeth" yn yr ystyr eang. Hefyd, ar hyn o bryd mae cryn sylw gwleidyddol yn cael ei roi i'r pwnc penodol yn ymwneud â mynediad at gasgliadau ac arbenigedd mewn rhanbarthau yng Nghymru. Mae'r strategaeth Cynllun i Gymru 2001 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a llythyr cylch gwaith presennol yr Amgueddfa yn ei gwneud yn glir y disgwylir i AOCC ymgymryd â mwy o weithgareddau mewn partneriaeth â chyrff eraill.

## 1.2 Cynseiliau Hanesyddol:

**1.2.1** Nid yw'r syniad y dylai AOCC ymgymryd â phartneriaethau penodol ag amgueddfeydd lleol yng Nghymru yn un newydd. Fe godwyd y syniad o gyswllt mewn cynhadledd archaeolegol a gynhaliwyd yn Abertawe ym mis Awst 1920 pan awgrymwyd y dylid gosod darganfyddiadau mewn amgueddfeydd ac y dylai'r cyfryw amgueddfeydd fod â chyswllt ag Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Fe arweiniodd hyn at gynllun cyswllt ffurfiol a gynigwyd gan Mortimer Wheeler ym 1922 ac a lansiwyd y flwyddyn ganlynol.

**1.2.2** Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf gydag aelodau'r amgueddfeydd cyswllt yng Nghaerdydd yn yr Amgueddfa Genedlaethol ym mis Hydref 1924. Fe gynrychiolodd pob aelod o'r Cyngor yr Amgueddfa Genedlaethol ar y Pwyllgor ac fe hysbyswyd fod pob amgueddfa yng Nghymru heblaw am un wedi mabwysiadau'r cynllun. Yn y pen draw datblygodd y cyfarfodydd blynyddol i fod yn Ysgolion Haf blynyddol yn seiliedig ar dechnegau amgueddfeydd. Yr hyn sy'n ddiddorol yw mai'r Cynllun Cyswllt a'r Ysgolion Haf oedd y cyntaf o'u bath i gael eu sefydlu ym Mhrydain, er bod cynseiliau y tu hwnt i'r Deyrnas Unedig megis yng Nghanada ac yn yr Unol Daleithiau. Bu'r Cynllun Cyswllt yn gweithio'n llwyddiannus am nifer o flynyddoedd ond fe'i disodlwyd gan Cyngor Amgueddfeydd Cymru a sefydlwyd ym 1965 a Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Cymru a sefydlwyd ym 1975.

## 1.3 Diffiniadau:

**1.3.1** Cyn cychwyn ar y gwaith ymchwil, roedd yn hanfodol ein bod yn mynd i'r afael â chwestiwn terminoleg. Mae 'Partneriaeth' yn derm ac iddo sawl ystyr. Yn aml fe'i defnyddir i roi disgrifiad bras o amrywiaeth o lefelau o weithio ar y cyd. Mae'n anorfod bod hyn yn arwain at wahanol ddehongliadau unigol a chyd-ddehongliadau a all achosi dryswch ynglyn â'r union ystyr. Felly, er mwyn gwneud y terminoleg yn eglur a phennu ffiniau'r adroddiad, fe fabwysiadwyd diffiniad eang:

*gweithio ar y cyd pan fo dau bartner neu fwy yn diffinio nodau ac yn rhannu dyroddiad adnoddau.*

*Yn fwy penodol, cydnabuwyd, o ran cynllunio ar gyfer y dyfodol agos, mai'r defnydd ar gasgliadau AOCC yng Nghymru yw'r pwnc craidd a gynrychiolir mewn trefniadau partneriaeth presennol.*

**1.3.2** Mae nifer o fentrau presennol AOCC nad ydynt yn cwrdd â'r maen prawf hwn. Fodd bynnag, mae'n hynod bwysig nodi bodolaeth trefniadau o'r fath a'u perthnasedd i amlygrwydd AOCC, gan y cyfeirir atynt yn aml yn fras fel partneriaethau.

**1.3.3** Er enghraifft, er mis Mai 2001, mae'r swyddogaeth trwyddedu delwedd wedi ei ganoli o fewn yr **Adran Fasnachol**. Mewn partneriaeth â gweithgynhyrchwyr parchus sydd wedi hen ennill eu plwyf, mae trwyddedu delwedd yn gyfle i ddatblygu cynnyrch yn seiliedig ar gasgliadau ond heb fuddsoddiad mawr ar ran AOCC. Mae hyn hefyd yn galluogi gosod cynnyrch AOCC mewn marchnad genedlaethol a, weithiau, rhyngwladol gan gynyddu amlygrwydd yr Amgueddfa yr un pryd. Mae partneriaethau diweddar yn cynnwys amrediad o gardiau cyfarchion yn seiliedig ar y casgliad celf yn AOCC a chyfres o becynnau 'rhagflas' yn seiliedig ar y casgliad tecstilau yn Amgueddfa Werin Cymru (AWC). Mae AOCC hefyd ar fin llunio cytundeb cwbl anghyfyngedig gyda Llyfrgell Gelf Bridgeman. Drwy roi detholiad o ddelweddau i lyfrgell luniau allanol, caiff AOCC fynediad i farchnad ehangach o lawer. Mae partneriaethau masnachol eraill ar y gweill ar gyfer y dyfodol.

**1.3.4** Fe ychwanegwyd at y farn bod AOCC yn flaengar yn y sector cyhoeddus o ganlyniad i'w gwaith gyda **Fforwm Padarn**. Mae'r bartneriaeth farchnata a hyrwyddo hon wedi bod mewn bodolaeth er 1996 ac mae'n cwrdd yn Amgueddfa Lechi Cymru (ALC), ddwywaith y flwyddyn fel arfer. Caiff y Fforwm ei gadeirio gan GyfarwyddwrCyffredinol AOCC, ac mae'n chwarae rhan weithredol yng ngwaith Llanberis fel 'cyrchfan' ac yn dod â phartneriaid o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat at ei gilydd. Bu cefnogaeth y fforwm yn hwb mawr i gais AOCC am nawdd CTL ar gyfer ALC a bu'r fforwm hefyd yn arloesol wrth lwyddo yn eu cais am nawdd Amcan 5b a sefydlodd

**Brosiect Llanberis**. Mae hwn yn bennaf wedi'i fwriadu i hyrwyddo Llanberis fel cyrchfan i ymwelwyr, a'i ardal darged yw'r cyrchfannau gwyliau ar hyd arfordir gogledd Cymru. Daeth y Prosiect i ben ym mis Mehefin 2002 ond mae wedi bod yn eithriadol o lwyddiannus wrth gael y canlyniadau a ragamcanwyd a buan iawn y daeth i gael ei ystyried yn esiampl o'r math yma o brosiect gan Wynedd, Bwrdd Croeso Cymru a'r WDA yn ogystal â chan fusnesau lleol yn Llanberis. Mae'r tîm rheoli lleol wedi neilltuo arian real yn ogystal â chymorth 'mewn nwyddau a gwasanaethau' ac mae'n cynrychioli cyfuniad o nawdd cyhoeddus a phreifat er lles pawb. Mae'r Prosiect wedi ennill clod mawr i AOCC ac mae hefyd wedi rhoi gwerth ei arian iddo o ran hyrwyddo ALC gyda chynulleidfa ehangach o lawer.

**1.3.5** Mae'n bwysig nodi **bod a wnelo llawer o bartneriaethau AOCC â gwaith y tu hwnt i Gymru**. Mae'n hanfodol cydnabod bod partneriaethau o'r fath yn haeddu trafodaeth helaethach yng nghyd-destunau polisïau a strategaethau eraill.

## 1.4 <u>Cynlluniau Partneriaeth Sefydliadau Cyffelyb</u>:

Mae'r rhan fwyaf o amgueddfeydd ac orielau cenedlaethol yn y Deyrnas Unedig yn datblygu cynlluniau partneriaeth ar wahanol ffurfiau. Mae bron pob un ohonynt yn canolbwyntio ar fynediad at wrthrychau drwy leoliadau sy'n wasgarog yn ddaearyddol.

Mae enghreifftiau'n cynnwys **Cynllun Partneriaeth Tate**, a ariennir gan Gronfa Treftadaeth y Loteri, ac y mae a wnelo â phum oriel a ddewiswyd i gymryd rhan mewn cynllun tair blynedd: Oriel Gelf Neuadd Abbott, Kendal; Castle Museum, Norwich; Ymddiriedolaeth Orielau ac Amgueddfeydd Sheffield; Yr Oriel Gelf Newydd, Walsall a'r Amgueddfa ac Oriel Gelf Grochenwaith. Amcana'r cynllun wella hygyrchedd Casgliad Tate i'r cyhoedd drwy gyfrwng cyfres o fenthyciadau ac arddangosfeydd yn ogystal â darparu cyfleoedd newydd ar gyfer hyfforddi a datblygu.

Mae'r **Oriel Bortreadau Genedlaethol** wedi cydweithio'n llwyddiannus ag eiddo hanesyddol ledled y wlad i sicrhau bod darnau pwysig o waith yng nghasgliad yr Oriel yn cael eu gweld y tu allan i Lundain mewn lleoliadau cyfnod priodol. Mae'r partneriaethau rhanbarthol hyn wedi arwain at arddangos niferoedd sylweddol o weithiau pwysig yn Nhy Montacute, Gwlad yr Haf, yng **Nghastell Bodelwyddan, gogledd Cymru**, ac yn Neuadd Beningbrough, Swydd Efrog.

Mae'r **Amgueddfa Brydeinig** wedi sefydlu rhwydwaith hyblyg o amgueddfeydd sy'n gweithio mewn partneriaeth â'u gilydd yn bennaf i rannu arddangosfeydd teithiol. Mae partneriaid yn cwrdd yn rheolaidd i rannu cynlluniau

ar gyfer arddangosfeydd yn y dyfodol gyda'r bwriad o'u hanfon ar daith o fewn amrediad y bartneriaeth. Ni fydd pob aelod o'r grwp yn cynnal pob arddangosfa, ond gobeithir y gall partneriaid weithio ar y cyd a thrwy hynny greu arddangosfeydd arloesol a chynhwysol.

Yn yr un modd ag AOCC maent hefyd yn ymwneud ag amrywiaeth o bartneriaethau masnachol, partneriaethau ymchwil a phartneriaethau rheolaethol ond anaml iawn y caiff y rhain eu marchnata gyda 'nod masnachu' allanol fel y cyfryw. Yn hytrach na hynny maent yn datblygu eu hunaniaeth benodol eu hunain gan ddibynnu ar y prosiect. Mae enghreifftiau'n amrywio o bartneriaeth Tate â'r Coffee Republic neu B&Q i nodau masnachu 'Tate Modern' a chyfranogaeth yr Amgueddfa Hanes Naturiol o'r Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol.

**1.4.1** Dengys y defnydd o **bartneriaeth ac iddi ddiffiniad eang** o'r math yma y gallai llawer o'r gwaith presennol yn AOCC, ar ryw lefel neu'i gilydd, gael ei alw'n bartneriaeth. Fe ddewiswyd yr enghreifftiau canlynol i ddangos yr amrediad eang o weithgarwch AOCC y gellid defnyddio'r term 'partneriaeth' i'w ddisgrifio ond dylid pwysleisio **na all yr adroddiad ddarparu, ac na ddylid ei ystyried yn, rhestr gynhwysfawr o bartneriaethau presennol sy'n gweithredu o fewn AOCC.** Yn baradocsaidd, mae hyn yn atgyfnerthu beth ddaeth yn fwyfwy amlwg yn ystod cyfnod yr ymchwil: sef nad yw amrediad a graddfa gweithgarwch AOCC yng Nghymru a'r tu hwnt wedi cael eu disgrifio'n llwyddiannus ar bob achlysur yn y gorffennol.

Gobeithir **y bydd yr adroddiad hwn yn dathlu ac yn hyrwyddo'r amrywiaeth enfawr o bartneriaethau AOCC** yn ogystal â chwilio am ffyrdd o ddatblygu'r rhain yn y dyfodol.

## 2.0 Enghreifftiau o Bartneriaethau Presennol AOCC:

### 2.1 Ymchwil:

Mae gwaith maes a gwaith ymchwil yn feysydd partneriaeth pwysig i AOCC ac yn dangos bod **trefniadau ariannu ar y cyd** yn dod yn fwyfwy cyffredin. Mae llawer o bartneriaethau gwyddonol wedi eu seilio ar brosiect ymchwil penodol ac yn para hyd ddiwedd y prosiect hwnnw. Serch hynny, mae'n bosibl dadlau nad ydynt yn 'bartneriaethau' yng ngwir ystyr y gair gan y cânt yn aml eu cychwyn gan un parti sy'n comisiynu gwaith gan un arall. Mae gan yr adrannau Curadurol a'r adrannau Addysg bartneriaethau anffurfiol sy'n golygu eu bod yn cydweithio ag amrediad eang o unigolion a mudiadau yng Nghymru. Mae a wnelo'r rhain fel arfer â defnyddio'r un adnoddau, a rhannu costau a buddiannau, gydag AOCC yn aml yn gweithredu naill ai fel cleient neu gwsmer.

**2.1.1** Prosiectau ymchwil cydweithredol yw'r allwedd i wella hygyrchedd nawdd ac mae AOCC wedi bod yn arbennig o lwyddiannus yn y maes hwn. Un enghraifft allweddol yw **Arolwg Môr Iwerddon y De Orllewin (SWISS)**. Mae hwn yn brosiect ar y cyd rhwng Cymru a'r Iwerddon a gychwynnwyd ac a ariennir yn rhannol yn ôl rhaglen INTERREG yr UE. Caiff ochr Gymreig y bartneriaeth ei harwain gan AOCC ar y cyd â Labordy Morwrol Porthaethwy, Prifysgol Cymru, Bangor ac ar ran yr Iwerddon fe arweinir y prosiect gan Goleg y Drindod, Dulyn ar y cyd gydag Aquafact International Services Ltd (Galway), yn ogystal â nifer o arbenigwyr a gytundebwyd o'r ddwy wlad. Prif amcanion y prosiect SWISS yw dilyn hynt y casgliadau di-asgwrn-cefn dyfnforol (annedd ar waelod y môr) a mesur bioamrywiaeth yr ardal ar y cyfan. Fe gydlynodd AOCC yr agweddau ar y prosiect sy'n ymwneud â chadw sbesimenau ac AOCC yw'r brif storfa ar gyfer y deunydd a gesglir. Darparodd yr arolygon lawer o ddeunydd ar gyfer ymchwil tacsonomig ac maent hefyd wedi arwain at ddau gyhoeddiad o ansawdd uchel.

**2.1.2** Y tu hwnt i hynny, mae AOCC yn chwarae rhan weithredol ym **mhrosiect NATO ar newid Paleosöig yn yr hinsawdd**. Yn ogystal ag AOCC, bydd paleobotanegwyr o Fwlgaria a Chanada yn cymharu'r newidiadau a fu mewn planhigion Carbonifferaidd Diweddar yn y gwledydd hyn sydd ymhell oddi wrth ei gilydd. Mae'r cymorth ariannol a ddarperir gan NATO yn dystiolaeth pellach o'r rôl ryngwladol flaengar a chwaraeir gan BioSyB wrth astudio bioamrywiaeth y fforestydd glaw trofannol hynafol hyn. Erbyn hyn, AOCC yw'r prif sefydliad ym Mhrydain ar gyfer astudiaethau bioamrywiaeth ar y fforestydd hyn a'u potensial ar gyfer deall y cyswllt achosol rhwng newid hinsoddol a phlanhigion trofannol.

**2.1.3** Mae trosglwyddo a rhannu arbenigedd gwyddonol yn rhan annatod o waith AOCC. Un enghraifft o hyn yw esblygiad 'Partneriaethau Mentora' megis yr un a grëwyd gan **Bioamrywiaeth Fforest Feddalogaidd Dwyrain Affrica**. Deilliodd hyn o grant ymchwil a arweiniodd at bartneriaeth yn seiliedig ar brosiect yn cynnwys AOCC, Amgueddfeydd Cenedlaethol Kenya ac Amgueddfeydd Cenedlaethol Tanzania. Mae hon erbyn hyn yn newid i fod yn bartneriaeth fentora, gydag aelodau o staff yn cael eu cyflogi yn eu priod sefydliadau ac yn cael eu cynnal gan AOCC, ond hefyd yn sicrhau eu nawdd eu hunain ar gyfer ymchwil sy'n cyfrannu at nod cyffredinol y prosiect.

**2.1.4** Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn comisiynu gwaith maes ond y corff sydd fwyaf blaengar yn y maes hwn yw **Cyngor Cefn Gwlad Cymru** (CCGC), corff y mae AOCC wedi cyfranogi o nifer o bartneriaethau cynhyrchiol ag ef. Gwaith ar gomisiwn yw hwn yn aml. Fodd bynnag, mae enghreifftiau o bartneriaethau yng ngwir ystyr y gair eto. Fe sefydlodd **Prosiect Minescan** bartneriaeth ffurfiol gyda Memorandwm Cytundeb rhwng AOCC, drwy'r Adran Ddaeareg, a CCGC, a barodd o 1996 tan 2001. Fe aeth y prosiect ati i adolygu 1,300 o safleoedd gwaith metel yng Nghymru ac fe arweiniodd at bedair cyfrol sylweddol; 'Adroddiadau Gwyddoniaeth ar Gytundeb CCGC'. Fe arweiniodd y Prosiect hefyd at gyhoeddiad ar y cyd rhwng CCGC ac AOCC: 'Cyfoeth Mwynol Cymru' a fwriadwyd fel testun rhagarweiniol ar gyfer y darllenwr cyffredin. Mae'r Prosiect yn arbennig o fanteisiol i'r naill bartner a'r llall. Fe sefydlodd CCGC fframwaith i gadw safleoedd mwynol yng Nghymru tra bod AOCC wedi cael gwybodaeth amhrisiadwy am y safleoedd ac wedi casglu sbesimenau o safleoedd, y mae llawer ohonynt yn 'ansefydlog' ac a allai ddiflannu yn y blynyddoedd sydd i ddod. Y Prosiect ar y cyfan oedd yr adolygiad mwyaf trylwyr o safleoedd mwynol yr ymgymerwyd ag ef ledled y byd.

**2.1.5** **Arolwg Baeau a Morydiau De Orllewin Cymru**: Roedd a wnelo'r gwaith hwn ar y cyd rhwng AOCC a CCGC â samplu dyfnforol helaeth ym Mae Caerfyrddin, Bae Sain Ffraid ac Aberdaugleddau ac fe'i cydgysylltwyd â dwy ysgoloriaeth ymchwil Ph.D ym Mhrifysgol Cymru Abertawe. Gwaith arall a wnaed ar y cyd rhwng AOCC a CCGC, a hynny'n fwy diweddar, yw'r Arolwg o Fanciau Tywod Cymru; astudiaeth o'r banciau tywod ar arfordir gorllewin Cymru i ddarparu gwybodaeth sy'n berthnasol wrth ddewis Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) yn y môr, yn unol â gofynion 'Cyfarwyddyd Trigfannau' yr UE. Fe arweiniodd y prosiect hwn at barhau â'r gwaith ar y cyd gyda Labordy Morwrol Porthaethwy.

**2.1.6** Un bartneriaeth barhaus sy'n bodoli rhwng CCGC a BioSyB yw'r prosiect a ariennir ar y cyd i astudio **daeareg a phaleontoleg blaenau cymoedd Nedd a Thawe**. Fe gyflogwyd Cymrawd Ymchwil i ymgymryd ag arolwg manwl o'r rhan hon o faes glo de Cymru, gan fapio a chofnodi'r datguddiadau, a chasglu cyfres o sbesimenau cynrychiolaidd o'r terfynlinau allweddol o blith y rhai sy'n cynnwys ffosiliau. Bydd hefyd yn nodi unrhyw faterion arwyddocaol yn gysylltiedig â chadw'r safleoedd. Caiff llwyddiant y prosiect ei adlewyrchu gan y ffaith bod CCGC wedi rhoi cytundeb arall dros ddwy flynedd i AOCC, y tro hwn er mwyn edrych ar rannau ifancaf y maes glo.

**2.1.7** Mae **cydweithio** ar brosiectau megis y rhain, y mae asiantaeth o'r tu allan yn darparu nawdd ar eu cyfer gydag AOCC yn darparu staff i ymgymryd â'r gwaith maes, yn galluogi'r naill bartner a'r llall i gyflawni amcanion ac yn hwyluso'r ffordd y caiff data gwyddonol ei gyfnewid. Yr hyn sydd lawn cyn bwysiced yw darparu gwybodaeth ar gyfer CCGC i'w gynorthwyo i ddatblygu strategaeth cadwraeth gydlynol tra'n ychwanegu deunydd newydd at gasgliadau AOCC. Er hynny, efallai y bydd **cyfleoedd ar gyfer partneriaeth agosach fyth gyda CCGC. Yn arbennig, fe ddylai cyfranogaeth staff AOCC o fentrau ymchwil arfaethedig ar yr adeg cynllunio yn hytrach na'r adeg gweithredu fod yn nod.**

**2.1.8** Mae staff AOCC ym mhob maes wedi sefydlu cysylltiadau deallusol cryf, yn arbennig rhai y mae a wnelont ag **addysgu ffurfiol mewn prifysgolion** yng Nghymru a thu hwnt. Un enghraifft diweddar o ymchwil ar y cyd yw'r Gymrodoriaeth Ymchwil a ariannwyd ar y cyd am ddwy flynedd gan AOCC a Phrifysgol Cymru Abertawe. Mae'r prosiect wedi bod yn astudio datblygiad Abertawe fel canolfan ddiwydiannol a morwrol ac mae wedi arwain at nifer o gyhoeddiadau sydd ar fin ymddangos. Mae traethawd academaidd yn seiliedig ar y gwaith ymchwil yn cael ei ystyried gan Wasg Prifysgol Cymru ar hyn o bryd. Os eir ymlaen â hyn, bwriedir ei gyhoeddi y diwrnod yr agorir yr amgueddfa newydd yn Abertawe.

Mae gan Brifysgolion yng Nghymru fantais ychwanegol o ran bod ganddynt wybodaeth arbenigol 'wrth law' fel a ddangoswyd gan gyfraniadau gan aelodau o staff i un o'r ychydig o gyrsiau archaeoleg a gynhaliwyd ym Mhrydain ar nwmismateg. Mae myfyrwyr o Brifysgol Cymru Caerdydd a Phrifysgol Cymru Bangor hefyd wedi cymryd rhan mewn nifer o gloddiadau archaeolegol yng Nghymru sy'n darparu cyfleoedd gwerthfawr i hyfforddi archaeolegwyr y dyfodol. Caiff y rhan fwyaf o'r gwaith hwn ei gyflawni yn unswydd, neu yn hytrach 'fel rhan o'r gwasanaeth a ddarperir yn arferol'. Mae hyn hefyd yn wir am fewnbwn academaidd i'r sefydliad a gwaith cymdeithasau dysg.

Er bod y gwaith hwn yn codi bri AOCC yn genedlaethol, nid yw bob amser yn llwyddo i wneud yr Amgueddfa'n fwy amlwg i'r cyhoedd. Yn yr un modd, caiff gwybodaeth arbenigol amlddisgyblaethol ym maes ymchwil ei chydnabod a'i pharchu yn genedlaethol ac yn rhyngwladol ac mae wedi llwyddo i gael grantiau ar gyfer partneriaethau'n seiliedig ar brosiectau. Serch hynny, efallai nad yw **ansawdd uchel y gwaith ymchwil a'r gwelliant yn amlygrwydd a statws AOCC** bob amser yn cael eu gwerthfawrogi'n llawn ac awgrymir y dylid cydnabod a chefnogi nerth partneriaethau o'r fath a chysylltiadau ymchwil academaidd sy'n deillio ohonynt.

## 2.2 <u>Curadurol ac Addysgol</u>:

**2.2.1** Un enghraifft ddefnyddiol o waith AOCC yn y maes hwn yw'r **Cynllun Henebion Cludadwy**, a ariennir gan Gronfa Treftadaeth y Loteri a'r Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, sy'n cofnodi canfyddiadau o bwysigrwydd archaeolegol. mae AOCC yn gweithio mewn partneriaeth gyda nifer o fudiadau gan gynnwys Cyngor Amgueddfeydd yng nghymru (CAmgC), Comisiwn Brenhinol Henebion Hynafol a Hanesyddol Cymru, Ffederasiwn yr Amgueddfeydd a'r Orielau Celf yng Nghymru a phedair Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cymru. Lleolir swydd Cydlynydd y Canfyddiadau yn yr Adran Archaeoleg a Nwmismateg yn yr AOG ond drwy gydweithio'n agos gydag Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru a'r amgueddfeydd lleol, sefydlwyd rhwydwaith o ganolfannau hysbysu ledled Cymru ble gellir mynd â chanfyddiadau i'w cofnodi.

**2.2.2** Mae'r Adran Addysg yn gyfrannog o nifer o brosiectau cydweithio drwy Gymru benbaladr sy'n cynnwys ysgolion, busnesau ac awdurdodau lleol ac mae'n aml yn gweithio'n uniongyrchol gydag awdurdodau addysg. Bu cysylltiad agos hefyd rhwng AOCC a'r digwyddiad 'Gwyddoniaeth yn y Ddinas' fel rhan o'r Wythnos Wyddoniaeth Genedlaethol ym mis Mawrth 2002. Bydd y **Prosiect Cronfa Mynediad yr Amgueddfeydd ac Orielau 'Ar Dir Cyffredin'**, a gydlynir gan yr Adran Addysg yn ogystal, yn targedu plant a phobl ifanc rhwng 16 a 24 mlwydd oed nad ydynt yn ymweld ag amgueddfeydd ar hyn o bryd. Mae pedair cymuned wahanol yng Nghymru wedi cytuno i gymryd rhan yn y prosiect; Dinbych, Abertawe, Dinbych y Pysgod a chymuned yn Rhondda Cynon Taf. Bydd pobl ifanc yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithdai a gweithgareddau i gynhyrchu adnodd sy'n berthnasol i'r gynulleidfa darged ac a fydd yn amlygu gwerth adnoddau a chasgliadau yn gysylltiedig â threftadaeth.

**2.2.3** Mae gweithio gyda darparwyr addysg bellach ac addysg uwch yng Nghymru wastad wedi cael blaenoriaeth gan AOCC ac un enghraifft ddiweddar a enillodd glod cyffredinol oedd y prosiect **'Blanced Gwehyddiad Ffibr'** a gynhaliwyd yn 2001. Roedd hwn yn arddangosiad o arwynebau wedi'u gwehyddu gan ddefnyddio deunyddiau wedi eu hailgylchu a grëwyd ar y cyd

rhwng Amgueddfa'r Diwydiant Gwlân Cymru (ADGC) a myfyrwyr ar eu hail flwyddyn yn dilyn Cwrs BA mewn Arfer Tecstilau Cyfoes yn Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd, Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd. Roedd y prosiect yn gyfle unigryw i ddefnyddio casgliadau'r amgueddfa i ysbrydoli dylunwyr newydd.

**2.2.4** Un maes arall sy'n hanfodol i waith AOCC yw **darparu cyngor curadurol a chyngor ynghylch cadwraeth**. Mae hyn yn digwydd mor aml ledled Cymru fel ei fod yn cael ei ystyried yn rhan o'r gwasanaeth a ddarperir yn arferol. Tan yn ddiweddar, roedd tystiolaeth o faint y gwasanaeth hwn a pha mor dda yw'r derbyniad y mae'n ei gael yn lleol, yn anecdotaidd gan fwyaf. Ym mis Mawrth 2002, fe wnaeth CAmgC archwiliad o'i amgueddfeydd cofrestredig gan gynnwys, ar gais AOCC, cwestiynau yn gysylltiedig yn uniongyrchol â'r gwasanaeth a ddarperir yng Nghymru. Mae sampl o'r ymatebion yn cadarnhau faint o wybodaeth arbenigol sydd ar gael oddi wrth staff AOCC mewn amgueddfeydd ledled Cymru yn bennaf ar ffurf cyngor ynghylch cadwraeth, gwybodaeth am waith ymchwil a chymorth adnabod. **Mae'n bwysig nodi i hyn ddigwydd mewn lleoliadau benthyca AOCC ac mewn sefydliadau eraill nad oes trefniadau benthyca ffurfiol rhyngddynt a ninnau.**

## 2.3 Partneriaethau Datblygu Prosiectau a Buddsoddi:

**2.3.1** Mae'r bartneriaeth rhwng **AOCC a Dinas a Sir Abertawe (DSA)** i sefydlu amgueddfa newydd yn unigryw ond mae'n cyd-fynd yn dda â'r pwyslais strategol y mae AOCC yn ei roi ar greu partneriaethau newydd a chreu gwell gweithgarwch mewn amgueddfeydd ledled Cymru. Fe lofnodwyd Memorandwm Dealltwriaeth rhwng partneriaid y Prosiect ym mis Ebrill 1999. Cytunwyd y byddai cwmni newydd yn cael ei sefydlu, a fyddai â statws elusen ac a fyddai'n gyfyngedig drwy warant, gyda Bwrdd yn cynnwys cynrychiolaeth yn ôl cymhareb 50:50 o AOCC a DSA, yn cynnwys cadeirydd annibynnol. Diben gwreiddiol y cwmni, a sefydlwyd ym mis Gorffennaf 2001, oedd darparu cyfrwng i DSA ac AOCC gydweithio i ddatblygu amgueddfa newydd mewn partneriaeth â'i gilydd.

Bydd Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe (AGGA) yn gatalydd i ddatblygu'r bartneriaeth. Er ei bod yn briodol bod nifer o bartneriaid yn cyfrannu deunydd amgueddfa a deunydd archif i ddangosiadau AGGA, mae AOCC yr un mor awyddus y bydd yr holl amgueddfeydd diwydiannol a morwrol cofrestredig yng Nghymru yn elwa o'i chasgliadau, yn enwedig y rheiny na all eu harddangos ei hunain. Mae'r dyhead hwn yn cyd-daro'n dda â nodau datganedig AGGA, ac un o'r rhain yw cynnig gweledigaeth synoptig o'r maes yng Nghymru, a gweithredu fel 'porth' i bob amgueddfa ddiwydiannol ac amgueddfa fôr a safle treftadaeth arall yng Nghymru.

## 2.4 Partneriaethau â Sefydliadau Cenedlaethol eraill:

Mae'r enghreifftiau canlynol yn dangos sut y **gall partneriaethau y mae a wnelo AOCC â hwy ddatblygu'n anffurfiol** naill ai drwy gyswllt unigol neu drwy i grwpiau o staff adeiladu perthnasau drwy gyswllt a thrwy rannu gwybodaeth arbenigol.

**2.4.1** Bu perthynas anffurfiol dda bob amser rhwng staff ym mhob rhan o AOCC a'u cymheiriaid yn **Llyfrgell Genedlaethol Cymru** (LlGC). Mae'r enghreifftiau o 'brotocolau' sy'n galluogi gwaith cymharus yn cynnwys y cytundebau yn ymwneud ag amryw feysydd casglu, megis dod i feddiant celfyddydwaith sy'n darlunio tirffurf neu unigolion Cymreig. Ers sefydlu'r Archif Sain a Sgrîn Genedlaethol (ASSG) yn 2001, mae perthnasau rhwng staff LlGC a staff sy'n gweithio yn Amgueddfa Werin Cymru (AWC) wedi dod i fod yn fwy ffurfiol. Cynhelir cyfarfodydd yn chwarterol i drafod digwyddiadau, caffaeliadau a pholisïau casglu ar y cyd ac fe anogir meddylfryd gydweithredol ar bob lefel. Mae AWC hefyd yn ymwneud â'r posibilrwydd o sefydlu Fforwm Archif Clyweledol Cymreig, unwaith eto gan weithio gyda LlGC a nifer o gyrff cenedlaethol eraill gan gynnwys y BBC ac S4C.

**2.4.2** Mae enghraifft amlwg a hirsefydlog o bartneriaeth yn bodoli rhwng AOCC a **Cadw** yn Amgueddfa'r Lleng Rufeinig (ALlR) yng Nghaerllion. Cyn bod mynediad am ddim, roedd ALlR a Baddonau'r Caer a reolir gan Cadw ill dau yn cynnig tocyn cyfun, gan 'rannu' yr elw yn gyfartal rhwng AOCC a Cadw. Fe ariennir swydd y Swyddog Addysg yn ALlR ar y cyd er 1994 ac mae Cadw'n cyfrannu at y gyllideb addysg. Fe drefnir digwyddiadau ar y cyd bob dwy flynedd. Mae'r bartneriaeth wedi llwyddo i fod wrth wraidd y gwaith o drafod materion a allai fod wedi bod yn anodd megis gwahanu tâl mynediad pan gyflwynwyd mynediad am ddim i safleoedd AOCC flwyddyn yn ôl.

**2.4.3** Fe gychwynnodd y prosiect '**Casglu'r Gemau'** mewn ymateb i alw am nawdd gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd dan y rhan o'i rhaglen ar gyfer 'Digideiddio Deunyddiau Dysgu' a elwir Cyfoethogi Diwylliant. Mae Bwrdd Casglu'r Tlysau Cyf. wedi'i seilio ar y bartneriaeth gonsortiwm wreiddiol ac mae AOCC yn un o nifer o bartneriaid sydd, ar y cyfan, yn cynrychioli 172 o wahanol sefydliadau o bob rhan o Gymru. Amcan y prosiect yw digideiddio dros 20,000 o ddelweddau o ddeunydd yn gysylltiedig â threftadaeth ddiwylliannol a gedwir mewn sefydliadau ym mhob cwr o Gymru. Bydd yn dod â'r delweddau hynny ynghyd fel rhan o un Wefan a fydd yn dod i fod yn adnodd dysgu cenedlaethol newydd, ac a fydd yn adlewyrchu ac yn hyrwyddo amrywiaeth ac arwyddocâd anhygoel deunyddiau a gedwir mewn llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac archifau yng Nghymru.

**2.4.4** Ochr yn ochr â phrosiectau i sefydlu cronfeydd data ar y cyd megis 'Casglu'r Gemau', gofynnwyd i AOCC weithio mewn partneriaethau eraill yn ogystal er mwyn cyflawni prosiectau pwrpasol i sicrhau mynediad at wybodaeth. Un enghraifft presennol yw'r **'Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol'**. Mae hon yn fenter i greu mynediad ar-lein cysylltiol at wybodaeth am yr amgylchedd, a ddiweddarir yn gyson drwy gyfrwng rhwydwaith o bartneriaid, o sefydliadau pwysig megis AOCC, Amgueddfa Genedlaethol Yr Alban, a'r Amgueddfa Hanes Naturiol, i gyrff megis CCGC ac Asiantaeth yr Amgylchedd, a grwpiau lleol sy'n arolygu amgylcheddau lleol drwy weithgarwch amatur.

**2.4.5** Mae gan AOCC nifer o brosiectau gyda **Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru**. Mae'r rhain yn cynnwys gwaith ymchwil ac arolygu rhywogaethau yn ogystal â chynorthwyo'r rhaglen arddangosfeydd celf ac maent yn amrywio o destunau rhagarweiniol a gwybodaeth gefndir yn gysylltiedig ag arddangosfeydd diweddar o ddarluniadau llysieuegol i arddangosiad o gelf Gymreig diweddar o gasgliad Derek Williams.

**2.4.6** Fe gychwynnwyd **Y Rhestr Genedlaethol o Luniau Ewropeaidd** (RhGLE) gan yr Oriel Genedlaethol yn Llundain mewn cysylltiad â chydweithwyr eraill mewn sefydliadau cenedlaethol a rhanbarthol eraill. Mae'r RhGLE wedi'i bwriadu i gasglu gwybodaeth am ryw 22,500 o brif gopïau o hen luniau yn y casgliad cyhoeddus yn y DU a'u rhoi mewn un gronfa ddata ar-lein enghreifftiol, y gellir chwilio drwyddi. Mae AOCC wrthi'n cefnogi'r cais ar y cyd gan nifer o amgueddfeydd yng Nghymru a bydd yn darparu lle swyddfa a mynediad at ei archif helaeth a gwybodaeth arbenigol broffesiynol o fewn yr Adran Gelf. Bydd canlyniadau'r ymchwil yn ddi-os o fudd i'r RhGLE ac yn ogystal yn gwella cyfathrebu a chydweithio rhwng amgueddfeydd rhanbarthol ac AOCC.

## 3.0 <u>Partneriaid Posibl</u>:

Mae'n amlwg, ar ôl ystyried yr amrediad o bartneriaethau o fewn AOCC, bod y mater strategol penodol yn ymwneud â mynediad at gasgliadau a gwybodaeth arbenigol berthnasol drwy gyrff o fewn Cymru yn un cymhleth. Mae amrywiaeth casgliadau a gwybodaeth arbenigol AOCC yn golygu bod staff AOCC yn gweithio gyda chyrff o wahanol sectorau yng nghymuned yr amgueddfeydd, yr orielau a 'threftadaeth'. **Mae'r categorïau canlynol yn adlewyrchu'r 'mathau' o bartneriaethau posibl** :

**3.1 Cyngor Amgueddfeydd yng Nghymru**: Mae CAmgC wedi derbyn £40,000 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu cynlluniau partneriaeth arbrofol gydag AOCC. Mae CAmgC wedi nodi tri lleoliad a fydd yn cyfranogi o'r cynlluniau arbrofol; **Amgueddfeydd Sirol a Gwasanaeth Diwylliant Ynys Môn, Amgueddfa ac Oriel Gelf Brycheiniog ac Amgueddfa Bwrdeistref Sirol Wrecsam**. Mae pob lleoliad wedi cyflwyno cynigion ar gyfer defnyddio'r nawdd i ddatblygu prosiectau a gwella'r ddarpariaeth drwy'r isadeiledd (e.e. darpariaeth arddangos a chadwraeth) i alluogi iddynt gael mynediad at gasgliadau AOCC. Byddant hefyd yn datblygu cyfleoedd allymestyn ac, os yw hynny'n bosibl ac yn briodol, cyfleoedd addas ar gyfer datblygu staff.

Mae enghreifftiau o ddeilliannau'n amrywio o raglen o arddangosfeydd cylchdroadol o ddeunydd llysieuegol ac archaeolegol sydd yn berthnasol yn lleol, i fentrau addysg lleol i hyrwyddo hyn gyda chynulleidfa darged arbennig. Yr hyn sy'n allweddol yw sut y bydd pob partneriaeth bosibl yn ei thro yn canfod y ffordd fwyaf effeithiol o ddatblygu'r cyfle i weithio gydag AOCC drwy greu'r posibilrwydd o gyfalaf ac adnoddau dynol fel sail i alluogi 'cyrraedd at' gasgliadau ac adnoddau addysg AOCC.

**3.2 Orielau Celf**: Mae Canolfan Gelf Aberystwyth, Oriel 31, Y Drenewydd ac Oriel Mostyn, Llandudno oll yn orielau celf blaengar yng Nghymru, ac yn **gleientiaid refeniw allweddol i Gyngor Celfyddydau Cymru**. Mae AOCC yn gweithio'n rheolaidd â lleoliadau o'r fath, cydweithio sy'n amrywio o roi gwaith ar fenthyg i ddarparu testunau, darlithoedd a chefnogaeth curadurol ac addysgol o fath arall. Fodd bynnag, nid ydynt yn aelodau o CAmgC gan nad ydynt yn 'amgueddfeydd cofrestredig', ac felly nid ydynt yn gymwys i fod yn aelodau nac i gael nawdd dan raglen partneriaeth bresennol CAmgC.

Mae **Adroddiad Pratley** a baratowyd yn ddiweddar ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru (CCC) yn adleisio'r dewisiadau a godir yn yr Ymgynghoriad ynghylch Arddangos Celf sy'n cael ei ddatblygu gan AOCC. Mae adroddiad Pratley yn argymell y dylid buddsoddi mewn partneriaid

rhanbarthol i'w galluogi i gynllunio arddangosfeydd ac arddangosiadau cymharus ledled Cymru ar y cyd ag AOCC.

**3.3 Canolfannau i ddehongli'r gymuned leol neu'r amgylchedd lleol**: Mae'n bosibl bod gan nifer o amgueddfeydd bychain waith ar fenthyg gan AOCC am gyfnod hir sydd, dros y blynyddoedd, wedi dod yn rhan hanfodol o arddangosiadau lleol. Yn aml, nid yw'r amgueddfeydd hyn yn meddu ar yr isadeiledd na'r adnoddau i'w caniatáu i fenthyca darnau newydd o waith neu arddangosfeydd bychain oddi wrth AOCC, gan nad yw eu trefniadau staffio na'u cyfleusterau wedi datblygu i'r un graddau â'r maes curadurol yn gyffredinol.

Ar archaeoleg, hanes cymdeithasol a hanes naturiol y mae'r pwyslais yn aml yn yr amgueddfeydd hyn, pob un ohonynt yn feysydd y mae cydbwysedd cymhleth rhwng arddangos a dehongli. Mewn cyd-destun lleol, mae'n bosibl bod canolfannau dehongli eraill, megis Canolfannau i Ymwelwyr â Pharciau Cenedlaethol, ymddiriedolaethau addysgol preifat ac atyniadau i ymwelwyr yn y sector preifat, wedi dod gyfuwch â hwy mewn rhai agweddau ar eu rolau fel addysgwyr a chanolbwynt i grwpiau lleol ac ymwelwyr o'r tu allan.

Yn y dyfodol, efallai y bydd AOCC yn cael bod ganddo ddewis anodd o ran sut i weithio gydag amrediad o gyrff o'r fath mewn ardal arbennig.

## 4.0 Lleoliadau bychain presennol a reolir gan AOCC o fewn partneriaeth leol hirsefydlog:

**4.1** **Amgueddfa Rufeinig Segontium (ARS):** Mae'r grwp llywio ARS wedi comisiynu David Clarke Associates (DCA) i ymgymryd ag astudiaeth o'r dewisiadau ar gyfer datblygu ac ag enghreifftiau o gynlluniau busnes ar gyfer rheoli ARS. Mae dewisiadau'n cynnwys rheoli'r safle presennol; safle 'gwastad' heb adeilad o gwbl, a'r arddangosiadau i gael eu dangos yn rhywle arall; a safle wedi'i wella, gyda dull mwy cyfun o weithio gyda chyrff eraill yng Nghaernarfon ac yng Ngwynedd. Bydd yn cynnig ffyrdd o sefydlu ymddiriedolaeth neu gorff rheoli tebyg. Cafodd adroddiad gan DCA ar y gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud ei dderbyn gan grwp llywio Segontium ym mis Chwefror 2002 a bwriedir gwneud gwaith pellach ar y materion yn y cynigion y mae a wnelont â chynllunio busnes.

**4.2** **Ty Turner**: Mae Cyfarwyddwr yr AOG a'r Ceidwad Celf erbyn hyn wedi cynnal trafodaethau cychwynnol cyfrinachol gyda dau gorff allanol ynglyn â'r gwahanol bosibiliadau ar gyfer cyflwyno trefniant rheoli ar gyfer Ty Turner a fyddai'n golygu bod yr adeilad yn parhau i fod yn eiddo i AOCC ond a fyddai'n ei alluogi i aros ar agor i'r cyhoedd i arddangos celfyddyd, fel a nodir yn y gweithredoedd.

Mae'r rhain yn adlewyrchu cyfnod pan ystyriwyd AOCC yn ddarparwr gwasanaeth rheoli amgueddfeydd canolog ar gyfer cymunedau lleol bychain. Maent angen eu gwneud yn fwy eglur a'u hadolygu o safbwynt economaidd, ac mae angen sicrhau nad yw'r awydd i greu perchenogaeth leol yn cael ei ddehongli yn yr ardal leol neu yn y rhanbarth fel dyhead gan AOCC i ymwrthod â'i rôl genedlaethol mewn ardaloedd lleol y mae'n dymuno tynnu yn ôl ohonynt. Mae ffurfio cyrff lleol a fyddai wedyn yn dod yn rhan o gynllun partneriaeth yn ddull a allai fod yn effeithiol wrth fabwysiadu dull hyd braich o reoli'r ddau safle.

**4.3** **Canolfan Sutherland, Tyddewi**: Mae hwn erbyn hyn wedi datblygu'n brosiect y mae Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro yn arwain y fenter partneriaeth ar ei gyfer. Pennwyd safle addas ac fe gomisiynwyd Ymgynghorydd Datblygiad Busnes i baratoi cynllun busnes. Bydd AOCC yn cyfrannu at yr astudiaeth honno ar y cyd gyda nifer o bartneriaid. Bydd yr astudiaeth yn cynnwys materion yn ymwneud â pherchenogaeth a rheolaeth ar y safle.

## 5.0 <u>Amgyffrediad ac Ymwybyddiaeth o AOCC</u>:

Yn sicr, **benthyciadau ac arddangosfeydd** sy'n dod ag AOCC i wydd y cyhoedd ac mae rhoi casgliadau ar led ym mhob cwr o Gymru wedi bod yn flaenoriaeth erioed. Un maes allweddol yr oedd yn rhaid i'r gwaith ymchwil fynd i'r afael ag ef oedd y safbwyntiau ynglyn ag agwedd AOCC at fenthyciadau ac hefyd roedd yn rhaid cwestiynu a yw maint gwaith yr Amgueddfa yng Nghymru yn cael ei ddeall neu ei gydnabod yn llawn.

**5.1** Mae maint llawn rhaglen fenthyciadau AOCC yng Nghymru yn drawiadol. <u>Heb gynnwys</u> y Casgliad Allestynôl a reolir gan yr Adran Addysg, ar hyn o bryd mae gan AOCC **3,135 o wrthrychau sydd ar fenthyg i 134 o leoliadau yng Nghymru**. Mae oddeutu 15% at ddibenion ymchwil ac nid ydynt yn cael eu harddangos. Fe ddylid pwysleisio mai ffigurau benthyciadau presennol gan AOCC yw'r rhain ac nid ydynt yn cynnwys benthyciadau byrdymor i arddangosfeydd dros dro a fydd yn digwydd yn ystod y flwyddyn, sy'n golygu ei bod yn anorfod y bydd y niferoedd hyn yn cynyddu.

**5.2** Gyda chymaint o weithgarwch â hyn, fe ddylai AOCC fod yn hyderus y bydd ei waith yn cael derbyniad cadarnhaol yng Nghymru. Nid felly y bu hi bob amser. Yn ystod y gwaith ymchwil ar gyfer yr adroddiad hwn fe wnaed nifer o 'alwadau oer' i leoliadau ble roedd deunydd o AOCC ar fenthyg at ddibenion arddangos. Ar sawl achlysur naill ai roedd y gwrthrychau'n cael eu harddangos a hynny **heb gydnabyddiaeth i AOCC**, neu **nid oedd y gwrthrychau'n cael eu harddangos**. Roedd y rheswm am hyn yn syml. Nid yw ffurflen amodau benthyca safonol bresennol AOCC yn ei gwneud yn ofynnol i leoliadau naill ai gydnabod benthyciadau neu hysbysu'r Amgueddfa pan nad yw benthyciadau'n cael eu harddangos mwyach. Cymerwyd yn ganiataol y byddai lleoliadau yn naturiol yn cydnabod benthyciad o gasgliadau AOCC ond dengys ymchwil nad yw hyn wedi digwydd bob amser.

**5.3** Gallai hyn fod yn rheswm allweddol sy'n esbonio pam nad oes **gan y cyhoedd lawer o syniad am waith AOCC** yng Nghymru. Mae dosbarthu casgliadau ar hyd a lled Cymru yn ac wastad wedi bod yn elfen hanfodol o arfer guradurol ac addysgol. Serch hynny, os nad ofynnwyd i'r lleoliad gydnabod AOCC yna efallai nad yw'n syndod nad yw ymateb ac adwaith y cyhoedd yng Nghymru bob amser yn gadarnhaol. Fe ddylid nodi bod AOCC wedi cymryd camau ar unwaith er mwyn ymateb i hyn. Mae'r Grwp Rheoli Casgliadau wedi ychwanegu dau amod arall i'r ffurflen amodau benthyca safonol. Yn ôl un ohonynt mae'n rhaid cydnabod benthyciadau oddi wrth AOCC ar y label ar y wal, ac mae'r llall yn rhagnodi bod yn rhaid hysbysu AOCC ar unwaith os rhoddir y gorau i arddangos gwaith a fenthycwyd at ddibenion arddangos ac y cymerir camau priodol a allai olygu

atal y benthyciad neu drafodaeth i wneud trefniadau newydd. Bydd darpariaeth treigl ychwanegol o'n benthyciadau wedi'u labeli yn rhoi hwb i'r gofyn ffurfiol hwn. (gweler **5.5**).

**5.4** Mae **gwella'r modd y caiff rhaglen fenthyciadau AOCC ei harolygu** yn hanfodol er mwyn codi a chynnal ymwybyddiaeth o waith yr Amgueddfa yng Nghymru. Fe ellid trefnu hyn fel ei fod yn cyd-daro â gwiriadau cadwraeth, yn enwedig ar gyfer benthyciadau hirdymor. Er enghraifft, fe ddylai fod yn bosibl pennu amserlen i archwilio'r casgliadau o waith sydd ar fenthyg drwy grwpio'r amgueddfeydd yn ddaearyddol. Byddai trefnu'r ymweliadau hyn fel eu bod yn cyd-daro â gweithgarwch arferol y bartneriaeth o amgylch Cymru'n dod â manteision ychwanegol o ran gwella ein hygyrchedd o safbwynt ceisio cyngor a byddai hefyd yn sicrhau bod ein casgliad o waith sydd ar fenthyg yn cael eu harolygu'n systematig.

**5.5** Felly mae cyfle ar gyfer **gweithrediad dwy lefel i 'ddiffinio' gwaith ar y cyd a gwaith mewn partneriaeth**. Er enghraifft, os yw benthyciadau'n cael eu darparu ar gyfer amgueddfa fel rhan o waith curadurol ffurfiol AOCC, fe ddylid nodi hyn yn fwy eglur ar y label, efallai drwy gyflwyno 'logo' neu icon unigryw sydd wedi'i gynllunio'n benodol at ddibenion benthyca neu arddangos. Fodd bynnag, os yw AOCC wedi bod yn rhan o waith cynllunio prosiect ar y cyd o'r cychwyn cyntaf, fe ddylid ystyried cynnwys hyn ar lefel hyrwyddo uwch.

## 6.0 <u>Cynllun Partneriaeth 'Cyfoeth Cymru Gyfan – Sharing Treasures'</u>:

**6.1** Bydd y cynllun hwn yn **gweithredu ar ddwy lefel**. Ar 'gynllun lefel uwch' bydd grwp o bartneriaid yn gweithio ar brosiectau curadurol, addysgol a rheolaethol cydweithrediadol penodol. Ar y 'lefel is', bydd pob un o fenthyciadau ac arddangosfeydd AOCC sydd o unrhyw bwys yn cael ei labelu fel rhan o'r cynllun, gan roi hunaniaeth a sylw cyson ar hyd a lled Cymru.

**6.2** Cynigir fod pob partneriaeth 'lefel uwch' a sefydlir o fewn y cynllun hwn yn gweithio o fewn **amser cyfyngedig**. Yn sail i'r rhain bydd trefniant cytundebol rhwng AOCC a phob lleoliad. Awgrymir fod y tri chynllun arbrofol yng nghynllun CAmgC yn gweithio mewn **cylchred o ddwy flynedd** i ddechrau. Wedyn byddwn yn ceisio nawdd pellach, drwy CAmgC ac asiantaethau eraill megis CCC a CCGC, ar gyfer gr_p dilynol o berthnasau i bara am bum mlynedd.

**6.3** Mae'n anochel y bydd y mewnbwn i bob cynllun yn **dibynnu ar y nawdd sydd ar gael**. Bydd angen i bob lleoliad gynnal adolygiad i ganfod sut y bydd y bartneriaeth yn eu galluogi i gael nawdd pellach yn lleol ac o'r tu allan.

**6.4** Os caiff gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, caiff y cynllun ei reoli gan swydd a fydd wedi'i lleoli yn AOCC, a elwir '**Swyddog Partneriaethau'**. Yn ystod cyfnod y cynllun arbrofol bydd adolygiad pellach o beirianweithiau i greu strwythur rheoli sydd wedi ei ddatblygu'n llawn ar gyfer y cynllun yn ogystal â'r lleoliad gorau, yn ddaearyddol ac yn drefniadaethol.

**6.5** Byddai'r amrediad o fenthyciadau yn y cynllun 'lefel is' yn cael eu harolygu gan y swyddog AOCC sy'n gyfrifol am y cynllun. Byddai'r swyddog yma hefyd yn ymddwyn fel **swyddog cyswllt trefniadaethol gydag awdurdodau lleol**, yn ôl gofynion Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae AOCC yn awyddus i ehangu cydweithio a chydweithredu fel a ddangosir gan ein gwaith gydag Amgueddfa Lofaol Pwll Mawr (Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen), Llanberis (Cyngor Gwynedd) a datblygiad AGGA (Dinas a Sir Abertawe).

## 7.0 Y Camau Nesaf:

**7.1** Mae'n bwysig sicrhau **cydbwysedd rhwng yr hyn a ddisgwylir yn wleidyddol a'r hyn y mae AOCC yn dymuno ac yn gallu ei wneud**. Bydd y cynlluniau arbrofol yn pennu ffiniau gyda'r amcan hirdymor o ehangu'r cynllun a thrwy hynny alluogi i fwy o leoliadau weithio gydag AOCC ond mae'n rhaid cael cydbwysedd rhwng hyn a'r hyn sy'n realistig wrth ddarparu gwasanaeth.

**7.2** Mae **goblygiadau o ran refeniw ar gyfer AOCC** yn bwysig. Mae arferion safonol gyda benthyciadau a mynediad at gasgliadau yn seiliedig ar egwyddor "y sawl sy'n cael benthyg sy'n talu". Mae goblygiadau pwysig yn hyn o beth o ran gallu AOCC i weithio gyda benthycwyr posibl yng Nghymru.

**7.2.1** Yn y lle cyntaf, golyga ei fod yn **parhau i fod yn amlwg yn rhyngwladol gan y gall sefydliadau a chyrff tramor godi arian i'w galluogi i dalu costau AOCC**. Wrth roi gwrthrychau ar fenthyg, y sawl sy'n cael benthyg sy'n talu am yr holl gostau o'r eiliad y caiff y gwrthrych ei symud o'i leoliad arferol i'r adeg y caiff ei ddychwelyd. Yn ail, serch hynny, **mae hyn wedi golygu mai yn anaml iawn y mae AOCC ei hun wedi cael benthyg o fewn y 'farchnad' fewnol yng Nghymru**. Mae lleoliadau bychain yng Nghymru wedi gallu cael benthyg arddangosfeydd gan AOCC pan fo nawdd gan AOCC ac arian a godir gan AOCC wedi galluogi arddangosfeydd i gael eu hanfon ar daith yn rhad. Er enghraifft, fe aeth yr arddangosfa ddiweddar gan AOCC, Chwaeth y Chwiorydd, ar daith i Aberystwyth a Chonwy. Heblaw am gostau, ni chodwyd tâl o gwbl ar y naill leoliad na'r llall. Mae'r arddangosfa Piranesi o Oriel Gelf Whitworth, Manceinion, a ddangoswyd yn yr AOG yn ddiweddar, yn debyg o ran maint i Chwaeth y Chwiorydd. Y gost i AOCC oedd £2,700 a chostau cludiant. Yn yr un modd, nid oes gan AOCC gyllideb fewnol na staff corfforaethol sydd wedi'u neilltuo i reoli benthyciadau a roddir, ac nid oes gan leoliadau adnoddau i ymorol am gostau y disgwylir i fenthycwyr gwrdd â nhw, megis costau cretiau, gosodiadau a fframiau, cludiant a negesydd.

**7.2.2 Fe ddangosir mai £150,000 oedd cost y Cynllun Partneriaeth i AOCC.** Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

i) cydlynydd canolog ar gyfer y cynllun yn ogystal â chymorth ysgrifenyddol a swyddfa i weithio ynddi
**(£35,000)**

ii) cynhyrchu deunydd ategol yn fewnol e.e. argraffu / arwyddion / labelu / gwaith hyrwyddo a.y.b.
**(£30,000)**

iii) darparu deunydd ar gyfer dangosiadau ac arddangosfeydd nad yw fel arfer ar gael at ddibenion o'r fath e.e. cratiau / fframiau / gosodiadau / cadwraeth **(£85,000)**

Mae hyn yn ychwanegol at nawdd partneriaid ac mae wedi'i fwriadu i leihau'r costau a ddaw i ran partneriaid o ganlyniad i greu'r arddangosfeydd, y dangosiadau a'r gwaith ar fenthyg ar gyfer y cynllun cymaint ag a ellir.

**7.2.3** Mae'r cynllun corfforaethol presennol yn dynodi anghenion AOCC yn y dyfodol os yw am gwrdd â'r costau hyn ar ran partneriaid posibl. **Drwy fynd i'r afael â'r materion hyn, bydd AOCC yn cynyddu'r gwaith y mae'n ei wneud drwy bartneriaethau tra'r un pryd yn parhau i ddatblygu ei gryfderau ym meysydd stiwardiaeth, ysgoloriaeth ac addysg**. Mae'r angen i gynyddu a gwella mynediad at gasgliadau'r genedl yn tyfu, ac mae'r angen i fuddsoddi adnoddau mewn stiwardiaeth (gwarchod, dogfennu, diogelu a chadw casgliadau) yn dod yn fwyfwy pwysig.

**7.3** Mae'n bwysig ystyried disgwyliadau partneriaid posibl. Mae partneriaeth yn awgrymu perthynas ddwyochrog rhwng cydraddau ac mae'n rhaid i ni fod yn ochelgar rhag y broses 'o'r canol tuag at allan'. Yr hyn sydd yr un mor bwysig, fodd bynnag, yw lefel yr ymroddiad a ddangosir gan y naill bartner a'r llall. Mae rhai partneriaid yn y cynllun arbrofol cyntaf eisoes wedi gwneud sylw ynglyn â phwysigrwydd canfod nawdd cyfatebol yn lleol. Bydd angen i awdurdodau sy'n bartneriaid posibl ystyried y costau refeniw hirdymor yn ofalus gan y byddant yn hollbwysig wrth gynllunio cynlluniau partneriaeth yn y dyfodol.

**7.3.1** Hefyd, fe ddylai AOCC fod yn barod ar gyfer ymateb negyddol posibl o blith y rhai a allai deimlo'n 'wrthodedig' neu fel pe baent yn cael eu heithrio o ganlyniad i ddatganiad cyhoeddus y cynllun. Bydd y posibilrwydd o 'ddiffiniad' Cymru-gyfan a pharhad gwaith arall o fewn ein rhaglenni curadurol ac addysgol o bosib yn atal hyn. Fe ddylid pwysleisio hefyd nad peth newydd yw datblygu cynllun o'r fath, gan fod nifer o fentrau partneriaeth eisoes ar waith rhwng AOCC ac amgueddfeydd lleol / rhanbarthol.

## 8.0 <u>Sut y gall AOCC elwa o fod â pholisi strwythuredig?</u>

**8.1** Bydd y cynllun partneriaeth yn llwyddiannus os gall **ddylanwadu ar y syniad am bresenoldeb AOCC ar y cyfan o fewn Cymru**. Mae datblygu dull cyd-drefnedig a chyson o rannu mynediad at gasgliadau a gwybodaeth arbenigol ledled Cymru yn cynnig manteision clir ac amlwg i AOCC a'u partneriaid.

**8.2** Mae **polisi cenedlaethol egluradwy** yn bwysig. Er bod AOCC wastad wedi gweithredu polisi Cymru-gyfan yng nghyswllt gwybodaeth arbenigol a chyngor yn y maes curadurol ac ym maes cadwraeth, bydd pwyslais ar hyrwyddo gwasanaeth yn codi ymwybyddiaeth o amrediad gweithgarwch AOCC ac yn arwain at fwy o ymdeimlad o gyswllt â'r gymuned gyfan yng Nghymru.

**8.3** Bydd y cynlluniau arbrofol sydd eisoes ar y gweill gan CAmgC hefyd yn codi'r cwestiwn yn ymwneud â **sut y caiff gwaith o'r fath ei ariannu**. Maent eisoes wedi arwain at drafodaeth ynghylch y costau y mae'n briodol i 'fenthyciwr' gwrdd â nhw, y costau y dylai AOCC gwrdd â nhw, a'r nawdd clustnodedig a allai ymorol yn deg am y naill ochr a'r llall.

**8.4** Bydd polisi strwythuredig yn **disgrifio'r nawdd sydd ar gael**, a'r penderfyniadau i'w priodoli i brosiectau neu feysydd gwaith penodol, a ddatblygir gyda phartneriaid y tu hwnt i AOCC.

## 9.0 Casgliadau:

- Mae'r ymchwil a wnaed ar gyfer yr adroddiad hwn yn awgrymu bod **nifer fechan o bartneriaethau** sydd â thargedau y mae'r naill ochr a'r llall yn cytuno arnynt ac a osodwyd o fewn terfynau amser penodol yn darparu fframwaith addas i gynlluniau arbrofol weithio ynddynt.

- Bydd creu **hunaniaeth labelog ar gyfer y cynllun yng Nghymru** yn galluogi'r partneriaethau arbennig hyn i wneud cynnydd a datblygu o fewn patrwm gweithio ehangach ar fathau eraill o bartneriaeth. Mae ymrwymiad ehangach yng nghyswllt polisïau a threfniadaeth eisoes yn dod yn ganolog i ddull AOCC o fynd i'r afael â phrosiectau yn ogystal â'r strategaethau ar gyfer gwaith AOCC yn gyffredinol. Fel hyn y bydd hi'n parhau i fod wrth fynd i'r afael â chynlluniau'r dyfodol.

- **Fe ddylai'r cynllun ddatblygu gwahanol 'rannau'** i adlewyrchu ffrydiau trefniadaethol ac ariannu gwahanol.

- Mae'n rhaid i AOCC geisio **parhau i ymwneud â phartneriaid y tu hwnt i Gymru**. Mae llu o bartneriaethau eraill ledled y Deyrnas Unedig, Ewrop a thu hwnt sydd yn hanfodol bwysig i waith AOCC ac na ddylid eu gostwng yn sgîl y pwyslais hwn ar Gymru sydd yr un mor bwysig.

**Awst 2002**